Cenn@d

GORFFENNAF 30 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 231

# Cynnal y dystiolaeth Gristnogol yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd




Eleni, Sir Gaernarfon oedd y sir nawdd yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, ac ers sawl blwyddyn bu llawer o godi arian ac ennyn brwdfrydedd o fewn y sir. Cynhaliwyd y sioe yn ôl yr arfer rhwng 21 a 24 Gorffennaf – wythnos gyntaf y gwyliau ysgol. Y Llywyddion eleni oedd John Owen a'i briod, Marian, o Rowen. Bob blwyddyn mae'r sioe yn 'cychwyn' yn nhref Llanfair-ym-Muallt – un ai yn yr eglwys neu'r capel yno. Dewis y Llywydd eleni oedd Capel Alffa, un o gapeli Eglwys Bresbyteraidd Cymru sydd mewn gofalaeth eciwmenaidd. Y ddau gaplan ar gyfer y Llywydd eleni oedd Aled Davies, yn cynrychioli ochr orllewinol y sir, ac Owain Davies yn cynrychioli'r ochr ddwyreiniol. Roeddent eisoes wedi cyflwyno oedfa'r sioe ar Radio Cymru y bore hwnnw, a chafwyd gwasanaeth yn y capel hefyd ar yr un thema, gan ddilyn hanes Noa'r ferch a'i pedair chwaer, sef merched Seloffehad, a'u brwydr i sicrhau eu bod yn cael cadw eu tir; gallwch ddarllen yr hanes yn Llyfr Numeri, penodau 26 a 27. Yn dilyn y gwasanaeth bu'n rhaid rhuthro i'r sied cneifio defaid ar gyfer Moliant y Maes, ac yno roedd dros fil o bobl wedi dod ynghyd i ganu detholiad o emynau, ac i glywed Côr y Sir yn canu 'Dal dy Dir', sydd hefyd yn enw ar elusen iechyd meddwl i gefnogi ffermwyr o fewn y sir.

Bore Llun, o 7 o'r gloch ymlaen, roedd y tîm caplaniaid yn crwydro'r maes, gan fod ar gael, yn glust gwrandawgar i bwy bynnag oedd am gael sgwrs. Yn yr un modd agorodd pabell tystiolaeth Cytûn, gan gynnig paned a theisen gri, danteithion i'r plant a chyfle am sgwrs o gwmpas y bwrdd. Roedd ardal helaeth ar gyfer gweithgaredd y plant, a braf cofnodi bod dros 200 o blant wedi ymweld, gan gwblhau project celf. Roedd amrywiaeth o stondinau yno, gan gynnwys am y tro cyntaf elusen Banc Bwyd Trussell Trust – diolch i Alun Griffiths am ddod atom.

Roedd Cymorth Cristnogol yno hefyd, a chafwyd dau wasanaeth ganddynt. Ar y dydd Mercher cafwyd gwasanaeth gan Mari McNeill, gydag Aled a Delyth Davies a Kathryn Stowers o Fyddin yr Iachawdwriaeth yn cynorthwyo. Fel rhan o'r gwasanaeth hwnnw cafodd pawb gyfle i sefyll mewn undod dros heddwch, gan ddal baner goch y tu allan i'r babell. Yna, ddydd Iau, cafwyd gwasanaeth o dan arweiniad Cynan Llwyd, yn cofnodi a dathlu 80 mlynedd o waith Cymorth Cristnogol, gydag Aled a Delyth eto'n cynorthwyo, ochr yn ochr â Tim Williams, cydlynydd y tîm caplaniaid. Cawsom hefyd y pleser o groesawu band Byddin yr Iachawdwriaeth atom ddydd Llun i'n harwain yn ein defosiwn.

Yn ystod yr wythnos rhannwyd dros 1,000 o baneidiau a llawer iawn o sgyrsiau difyr o gwmpas y byrddau. Bellach paciwyd cynnwys y babell i'r trelar, sydd ar gychwyn am faes yr Eisteddfod yn Wrecsam. Gobeithio y cawn gyfle i groesawu rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* i mewn atom yno.

*Aled Davies*

Camu Allan efo'r 'Cam Nesaf' **Tudalen 2**

Cofio'r Parchedig Huw John Hughes **Tudalen 3**

Cofio David Enoch **Tudalen 7**

# Camu Allan efo'r 'Cam Nesaf'




Ym mis Gorffennaf eleni, ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, roedd y plant oedd ym Mlwyddyn 6 yn paratoi i orffen eu hamser yn yr ysgol gynradd a symud i'r ysgol uwchradd. Mae trefn wych o weithgareddau pontio eisoes yn cael eu cynnig gan yr ysgolion uwchradd, a buom yn rhannu llyfryn bychan o'r enw *Y Cam Nesaf* i'r disgyblion hyn ers blynyddoedd. Eleni daeth cyfle i ehangu ar y cynllun hwnnw wrth i dîm bach ddod at ei gilydd yn Sir y Fflint i weithio efo ysgolion sy'n bwydo Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug. Defnyddiwyd adnoddau *Y Cam Nesaf* gan Scripture Union i gynnal trafodaeth am deimladau'r plant ym Mlynyddoedd 5 a 6 ac am y newidiadau oedd i ddod.

Dros bythefnos, fe fu'r tîm yn ymweld â phedair ysgol, gan siarad efo dros 120 o blant. Cafodd pob ysgol weithdy diwrnod cyfan, yn dechrau drwy edrych ar eirfa emosiynau a theimladau, cyn symud ymlaen i weithgareddau animeiddio, celf, recordio llais a ffotograffiaeth. Hefyd, cafodd pob plentyn 'lythyr' wedi ei greu gan y plant eraill yn eu dosbarth, yn nodi'r pethau roedden nhw'n eu hoffi am yr unigolyn, eu cryfderau, a beth sy'n eu gwneud nhw'n arbennig ac yn unigryw.

Daeth y gwaith yma at ei gilydd mewn arddangosfa derfynol a aeth ar daith i dri chapel yn y sir: Eglwys Bro Treffynnon, Capel Caersalem yn y Fflint a Chapel Bethesda yn yr Wyddgrug. Roedd gwahoddiad agored i'r plant i ddod i weld yr arddangosfa efo'u teuluoedd, ac mi ddaeth dros gant o ymwelwyr dros y tri diwrnod.

I gyd-fynd â gwaith celf y plant yn yr arddangosfa, roedd ffilmiau byr yn cyfuno lleisiau'r plant yn siarad am eu teimladau, lluniau, ac adnodau o'r Beibl oedd yn berthnasol i'r teimladau yma. Gosodwyd gorsafoedd gweddi o gwmpas yr arddangosfa yn arwain yr ymwelwyr i weddïo dros ofidiau'r plant, i adael pob poen wrth y Groes, a dathlu'r atgofion melys am eu hamser yn yr ysgol gynradd.

Cyflwynwyd eu gwaith yn ôl i'r disgyblion erbyn diwedd y flwyddyn ysgol, gyda'r gyfrol *Y Cam Nesaf* yn anrheg. Yn ogystal, roedd un ychwanegiad unigryw i bob un ohonyn nhw – neges fer wedi'i hysgrifennu gan un o'r tîm o wirfoddolwyr o'r capeli, yn bendithio'r plentyn efo neges bersonol, ac adnod berthnasol i gyd-fynd â hi.

Mae'r prosiect yma bellach wedi dod i ben, ond mae cenhedlaeth newydd wedi cael y cyfle i glywed bod Duw yn eu caru, ac yn gofalu amdanyn nhw yn yr amseroedd anodd ac yn yr amseroedd da. Gofynnwn i chi weddïo dros y canlynol:

- y bydd i'r geiriau yma o fendith lanio ar dir ffrwythlon,
- y bydd perthynas dda'n parhau rhwng y capeli a'r ysgolion,
- y bydd y rhai sydd eisiau perthynas ddyfnach efo Duw – boed yn blant, yn deuluoedd neu staff yr ysgolion – yn cyfarfod pobl all gerdded ar y daith yna efo nhw.

Os hoffech chi gael blas o'r arddangosfa, dyma ddolen at fideo sy'n mynd â chi ar daith rithiol i Sir y Fflint.

*Claire a Tim Heeley,*
*Bae Colwyn*

# Cofio'r Parchedig Huw John Hughes



Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parchedig Huw John Hughes yn ddiweddar, a hynny yn dilyn cyfnod o salwch. Roedd Huw yn un o'n hawduron mwyaf toreithiog a dawnus fel gwasg, bob amser yn llawn creadigrwydd, ac wrth ei fodd yn ymchwilio ac arbrofi. Dros gyfnod o 30 mlynedd fe baratôdd Huw dros 35 o gyfrolau swmpus ar gyfer Cyhoeddiadau'r Gair, y rhan fwyaf ohonynt yn gyfrolau gwreiddiol. Bu wrthi hefyd yn paratoi cyfrolau addysgol i weisg eraill cyn hynny.

Lluniodd gyfrolau gwasanaethau defosiynol di-ri: *Defosiwn Gŵyl y Cynhaeaf*, *Dyrchafu'r Duw Byw*, *Pererin Wyf* ac *Yr Enw Mwyaf Mawr*. Hefyd, fe addasodd sawl cyfrol, gan gynnwys *Beibl Lliw mewn 365 o storïau* a *Beibl Lliw Stori Duw*, *Chwedlau Mawr y Byd* a *Straeon o Bedwar Ban Byd*. Fel un a dreuliodd flynyddoedd ym myd addysg, cafwyd cyfrolau gwreiddiol i blant ganddo, gan gynnwys *Am Fyd*, *Am Bobl* ac *Am Ddawn*, tair cyfrol yn cynnwys dros gant o storïau gwreiddiol yr un. Daeth y rhain yn ffefrynnau gan athrawon ysgol oedd yn chwilio am ddeunydd ar gyfer gwasanaethau boreol. Aeth ymlaen i baratoi cyfrol o wasanaethau pwrpasol i ysgolion, gyda 66 o wasanaethau cyflawn i blant cynradd.

Mae llawer wedi gwerthfawrogi ei galendrau 365 adnod a myfyrdod, *Un dydd ar y tro* a *Diwrnod newydd arall*, a deunyddiau ar gyfer defosiwn personol. Cyfrol llawn ffeithiau difyr oedd *Cracyr Nadolig*. Gyda'r gyfrol yn barod i'w chyhoeddi ddechrau mis Medi, meddyliodd Huw mai da o beth fyddai lansio'r gyfrol yng Nghanolfan Arddio Treborth, gan y byddai'r trimins Dolig allan yno yn barod, a dyna'r llun dwi wedi ei rannu yma.

Aeth ati i baratoi cyfrol ar hanes yr ysgol Sul yng Nghymru, sef *Coleg y Werin*, yn seiliedig ar ei waith ymchwil ar gyfer ei ddoethuriaeth. Ac yntau wedi gweithio mor ddiwyd dros yr ysgol Sul yng Nghymru, gan baratoi nodiadau Beiblaidd fel canllaw i ddosbarth yr oedolion am flynyddoedd, cyflwynwyd Medal Gee er anrhydedd iddo, a hynny mewn seremoni arbennig ym Mangor rai blynyddoedd yn ôl.

Cyfrol werthfawr arall, sy'n dipyn o ffefryn gen i, yw *Cwlwm Celtaidd*, lle'r aeth ati i greu a chasglu cannoedd o weddïau mewn arddull Geltaidd. Enillodd wobr Tir na n-Og am ei gyfrol addysgol *Cristion dwi i*, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Addysg Grefyddol ym Mangor.

Ond roedd Huw yn gymaint mwy nag awdur, wrth gwrs. Roedd yn weinidog blaengar a mentrus, yn bregethwr hynod boblogaidd, ac yn uchel ei barch gan bawb. Roedd yn athro cynradd ysbrydoledig ac yn fentor i genedlaethau o athrawon yn sgil ei waith fel hyfforddwr yn y Coleg Normal ac yn rhan o dîm a ddatblygodd Gynllun y Porth. Fe gofir amdano hefyd fel naturiaethwr, a dyn y Pili Palas, yn cydredeg yr atyniad poblogaidd a groesawodd ddegau o filoedd o ymwelwyr ato, ac fel golygydd y cylchgrawn *Cynefin*.

Dwi'n gwerthfawrogi'r cydweithio hapus a fu rhyngom am dros 30 mlynedd, a'r croeso ganddo bob amser ar yr aelwyd ym Mhorthaethwy, ynghyd â Huw a Gwenda. Treuliasom ddyddiau lawer yn cynllunio, trafod a golygu dros 35 o gyfrolau.

Bydd ei gyfrol olaf, sy'n ffrwyth llafur y tair blynedd diwethaf hyn, sef *Dyrys Daith*, yn cael ei chyhoeddi yn Wrecsam yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Cafodd weld y broflen olaf cyn ei hanfon i'r wasg, a dwi'n ddiolchgar i Dr Hefin Jones am gyflwyno adolygiad hynod werthfawrogol ohoni ar raglen *Bwrw Golwg* rai Suliau yn ôl. Cyfrol yn ymdrin â newid hinsawdd a gofalu am y greadigaeth yw hon, a'i wybodaeth eang o fyd gwyddoniaeth yn disgleirio trwodd. Ond nid cyfrol ffeithiol yn unig mo hon: i Huw, yr hyn oedd yn bwysig oedd bod cynulleidfaoedd yn trafod ac yn ystyried y pynciau pwysig hyn. Felly, mae yna wasanaethau cyflawn ac astudiaethau Beiblaidd yn rhan o'r ddarpariaeth.


Go brin y gwelir eto awdur Cristnogol mor amryddawn a dawnus, gyda'r gallu a'r egni i baratoi dros 35 o gyfrolau – pob un ohonynt yn ffrwyth gwaith ymchwil manwl a thrwyadl.

Diolch am ei gyfraniad enfawr, diolch am ei gyfeillgarwch a choffa da amdano.

Diolch i Siôn Aled Owen am rannu'r englyn hwn i gofio amdano:

> Da chdi, a'r Pili Palas – yn creu hud
> o'r cread a'i urddas,
> dy waith fu'n drysor, da was,
> a'i Amen dy gymwynas.

*Aled Davies*
*ar ran y Cyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair*






Aled a Huw yn lansio *Cracyr Nadolig* yng nghanolfan arddio Treborth

# Anerchiad y Llywydd, y Parch. Rob Nicholls, Undeb Bedyddwyr Cymru, Llundain, 20 Mehefin 2025

Wrth sefyll o'ch blaen chi heno, rwy'n llawn ymwybodol o'r anrhydedd sydd wedi'i osod arnaf, ac yn diolch yn ddiffuant iawn am yr anrhydedd hwnnw, ac am eich presenoldeb yma yn Llundain. Mae llawer ohonoch chi wedi gwneud cryn ymdrech i fod yn bresennol.

Yn anffodus, oherwydd afiechyd, mae'n siom i mi yn bersonol nad yw 'Nhad a'm llys-fam yn gallu bod gyda ni heno, ond rwy'n diolch iddyn nhw yn ddidwyll iawn am bob cefnogaeth ac anogaeth ar hyd y daith.

Rhaid i mi sôn yn benodol ar y dechrau am y Parchedig Peter Dewi Richards hefyd, a'r ffaith ei fod e'n methu bod gyda ni heno.

Byddai'n amhosib i unrhyw weinidog gael rhagflaenydd mwy graslon, cefnogol a chyfeillgar na Peter, ac ni allaf ond dweud mor uchel fy mharch tuag ato am yr oll y mae wedi'i wneud i mi yn bersonol, dros yr eglwys hon, ac wrth gwrs, am ei waith fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb cyn hynny.

Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'r 'cwmwl mawr o dystion' hynny sydd yn ein hamgylchynu, ac wrth edrych ar restr o gyn-lywyddion yr Undeb, rwy'n arswydo braidd mod i bellach yn cael fy rhestru yn eu plith, ac yn rhan o'r fath linach eithriadol.

Ges i fy magu yn sŵn a swyn rhai o'r enwau hynny: Abel J. Parry, Edwyn Edmunds ac S. J. Leeke o blith cyn-weinidogion Bethesda, Abertawe; ac yna'n ddiweddarach, J. S. ac M. J. Williams a fu'n gymaint o ddylanwad arnaf yn ystod blynyddoedd ffurfiannol fy ieuenctid – 'eu henwau'n perarogli sydd'. Ni allaf ond gweddïo y byddaf yn gwneud cyfiawnder â'r gwaith o lywyddu Undeb yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, ac yn gwneud cyfiawnder hefyd â'ch ymddiriedaeth chi ynof fi i gyflawni'r dyletswyddau hynny.

'Tarian Ffydd' – dyna'r thema a ddewiswyd ar gyfer y gynhadledd eleni, ac wrth ddewis testun o'r fath, er y cysylltiadau militaraidd a rhyfelgar amlwg, rwyf am bwysleisio o'r cychwyn cyntaf taw tarian ysbrydol, nefolaidd sydd gennym yma, nid bydol a daearol, yn enwedig wrth ystyried yr holl sôn am ryfel a thrais yn yr oes a'r cyfnod yr ydym yn byw ynddynt ar hyn o bryd.

Wedi dweud hynny, mae'n anochel y bydd ambell gyfeiriad at ddelweddau a chymariaethau milwrol o fewn yr anerchiad hwn – dim ond i ni gofio o hyd am eiriau Eifion Wyn, a'i emyn yn y detholiad o emynau ar gyfer y gynhadledd hon, 'Fel na byddo mwyach na dial na phoen / na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.'

Gwaith a dyletswydd pob Cristion yw amddiffyn – amddiffyn a rhannu'r ffydd a draddodwyd i ni drwy saint y oesoedd. Mae'n rhaid 'gwisgo holl arfogaeth Duw', fel y clywsom yn y darlleniad o Lythyr Paul at yr Effesiaid.

Ond nid amddiffyn yn unig yw ein gwaith; mae'n rhaid ymosod ar brydiau hefyd – nid yn filitaraidd wrth reswm, gan bwysleisio eto taw 'ymarfogi â holl arfogaeth Duw' a wnawn ni, nid ag arfau dinistriol y byd hwn.

Nid brwydro yn erbyn cig a gwaed, ond yn erbyn holl anghyfiawnder, camwedd a drygioni'r byd hwn – yn erbyn 'tywysogaethau ac awdurdodau', meddai'r adnod. Ac yn erbyn



Rob yn traddodi ei anerchiad

y rheiny, rhaid defnyddio'r arfau priodol ac yn y dull priodol hefyd. Gan gofio bob amser bod 'ffydd *heb* weithredoedd, yn farw ynddi ei hun'.

Rwy'n dyfynnu geiriau Martin Luther King Jr. yn aml, 'Darkness cannot drive out darkness, only light can do that, hate cannot drive out hate, only love can do that.'

Felly ninnau sydd am ddilyn Crist a'i ddysgeidiaeth, a hynny mewn oes a chyfnod sydd mor gynyddol seciwlar a bydol ei gwedd (er bod arwyddion o gynnydd a chyffro yn y tir fel y clywsom yn y sesiwn genhadol gyda Carwyn Graves pnawn 'ma), rhaid i ninnau hefyd 'ymarfogi' â tharian ffydd, a mynnu bod yn wahanol – gan gofio ein bod *yn* y byd ond nid *o'r* byd.

Ar ôl dweud hynny, mae rhai sy'n arddel perthynas ag Iesu Grist yn ein heglwysi y dyddiau yma, gan gynnwys ambell arlywydd a phenaethiaid gwladwriaethau eraill, yn hapus i aros o fewn terfynau cyfforddus y byd hwn, yn bodloni ar gydnabod, yn gyhoeddus o leiaf, ryw 'rith o grefydd', fel soniodd Dafydd Morris amdano yn ei emyn.

Heb fod yn orfeirniadol o eraill, 'Na fernwch, fel na'ch barner', a chydnabod fy ngwendid a'm hamherffeithrwydd amlwg fy hun, ni allaf ddim ond eilio'i eiriau:

> N'ad im fodloni ar ryw rith
>   o grefydd, heb ei grym,
> ond gwir adnabod Iesu Grist
>   yn fywyd annwyl im.

Yn ôl ein 'hanghydffurfio' â'r byd hwn – gan gofio ein bod ni'n perthyn i'r traddodiad anghydffurfiol – yn ôl *hynny* byddwn yn cael ein barnu, yn ein hymgais i fod yn feiddgar, yn hyderus ac yn ddi-ofn yng ngwaith y deyrnas yn y dyddiau sydd ohoni.

Cofiwch fod sicrhau gwên oddi wrth Dduw yn golygu derbyn gwg oddi wrth y byd yn aml! Achos nid rhyw ffydd arwynebol mo hon – yn seiliedig ar chwedlau neu straeon hudolus, ond ffydd yn seiliedig ar ffaith a gwirionedd Iesu Grist, ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, a'r ffaith ei fod e yma gyda ni heno!

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Anerchiad y Llywydd, y Parch. Rob Nicholls, Undeb Bedyddwyr Cymru, Llundain, 20 Mehefin 2025*

*(parhad o dudalen 4)*

Ffydd sy'n creu gobaith ac yn esgor ar gariad, ffydd sy'n sail i'n cenadwri, i'n cenhadaeth a'n cyfrifoldeb ni fel Cristnogion yn y byd.

Yn ei ddwy gyfrol swmpus a dylanwadol *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, ysgrifennodd R. Tudur Jones fel hyn am Gymru: "Ym more bach ei hanes, pan wersyllai milwyr Rhufain yn Segontium a Chaerlion, dechreuodd y Ffydd Gristionogol ddylanwadu arni. A thrwy'r canrifoedd oddi ar hynny ni phallodd y dylanwad, er iddo droeon lesgau." (A dyna fi wedi cyfeirio at gymhariaeth filwrol yn syth!)

Ond nid ffydd pobl ddoe ac echdoe a ddathlwn heddiw. Nid ffydd y 'ffyddloniaid dewrion gynt' sy'n cynnal ein tystiolaeth a'n cenhadaeth yn yr unfed ganrif ar hugain. Ie, diolch amdanynt, am eu dycnwch a'u dyfalbarhad ar hyd y canrifoedd; ond mae Tudur Jones yn mynd ymlaen i ddweud ymhellach: "Ffolineb fyddai honni fod y goleuni wedi diffodd … gwelodd Duw yn dda ganiatáu adnewyddiad nerthol i bobl Cymru, ac ni phallodd y weledigaeth fod cynghanedd ac undod a gorfoledd ac ystyrlonedd i'w cael eto i bobl Cymru yng Nghrist. A lle bo gweledigaeth, nid pallu wna'r bobl."

A rhan o'r weledigaeth honno rwyf am geisio'i rhannu gyda chi heno, a hynny gyda chymorth Duw a'r Ysbryd Glân.

Yn y rhan gyntaf yr anerchiad hwn byddaf yn ceisio dehongli ychydig ar y ddelwedd a'r gymhariaeth hon o ffydd fel tarian; yn yr ail ran, yn ceisio atgyfnerthu hynny yn ein profiad ni, ac yn y rhan olaf, yn cynnig gair o gysur wrth ddefnyddio ein ffydd i'n galluogi i 'ddiffodd holl saethau tanllyd yr un drwg', fel y dywed yr adnod.

**1 Ffydd fel tarian**

Felly, mae ffydd yn cael ei chymharu â tharian, ac mae nifer o agweddau amrywiol sy'n perthyn i ffydd yn gyffelyb i darian. Yn gyntaf, mae ffydd, fel tarian, yn ein hamddiffyn rhag ymosodiadau a pheryglon yn ein herbyn.

Defnyddid tarianau gwahanol yn yr oes a fu, ond mae cyfeiriad arbennig yn yr adnod at darian fawr a ddefnyddid gan y Rhufeiniaid a'r Groegiaid weithiau. Mae'r gair yn cael ei gyfieithu fel 'drws' ar adegau, oherwydd bod eu tarianau mor fawr â drws. Roeddent yn gallu gorchuddio'r corff cyfan. Mae adnod olaf y bumed salm yn sôn fel hyn: 'Oherwydd yr wyt Ti, Arglwydd, yn bendithio'r cyfiawn, ac y mae dy ffafr yn ei amddiffyn fel tarian.' Neu, yn beibl.net, 'Fel tarian fawr o'u cwmpas nhw' – sy'n disgrifio'r peth yn well o lawer (rydych chi sy'n adnabod fi'n dda yn synnu mod i'n ffafrio cyfieithiad beibl.net dros yr hen gyfieithiad!).

Yn ogystal â'ch amddiffyn, ga' i awgrymu bod ffydd, fel tarian, yn derbyn yr ergydion yna a fwriadwyd ar eich cyfer chi yn bersonol.

Mae rhai o'r farn a'r meddylfryd fod meddu ar ffydd yn eu galluogi i osgoi ergydion yn gyfan gwbwl – pe bai digon o ffydd ganddyn nhw, byddai popeth yn esmwyth a thawel. Ond, dyw pethau ddim yn gweithio fel 'na mewn bywyd! Pam gwisgo arfwisg os nad oes rhyw fath o ymladd neu ornest ysbrydol ar y gorwel?

Gadewch i ni ddisgwyl ymosodiadau ysbrydol mewn bywyd, ond gofalwn ein bod wedi gwisgo ffydd i'n diogelu rhag yr ymosodiadau hynny. Rwy'n dyfynnu'r dywediad Saesneg hwn yn aml: 'Faith isn't about everything turning out ok, faith is about being ok no matter how things turn out.'

Hefyd, mae ffydd yn debyg i darian am fod angen iddi fod yn gryf – nid bod ein ffydd yn gryf drwy'r amser, ac mae digon o enghreifftiau yn yr ysgrythurau, a chyfeiriadau gan Iesu ei hun yn canmol ffydd fechan, hyd yn oed mor fach â'r hedyn mwstard.

Rwy'n siŵr bod llawer ohonom yn gallu uniaethu â datganiad tad y bachgen hwnnw pan ddywedodd, 'Y mae gennyf ffydd; helpa di fy niffyg ffydd.'

Un prawf amlwg o gryfder ac addasrwydd eich ffydd a'ch tarian yw sicrhau ei bod wedi'i chreu fel un darn cyfan, nid fel cyfuniad o ddarnau bach.

Beth dwi'n ei olygu wrth ddweud hynny? Rhaid iddi fod yn ffydd yn seiliedig ar Iesu Grist yn unig, a hwnnw wedi'i groeshoelio er eich mwyn. Hynny yw, nid ffydd ac ymddiriedaeth ynoch chi eich hunan, neu mewn unrhyw feidrolyn arall, ond yn gyfan gwbwl ar Grist, neu fydd eich tarian a'ch ffydd yn hollol ddiwerth!

Rydych chi sy'n gyfarwydd â'r pulpud hwn yn gwybod bod plac efydd wedi'i hoelio i'r pren – does dim modd gael gwared â hwn! Plac ac adnod wedi'i naddu arno ydyw, adnod o Efengyl Ioan, 'Syr, fe hoffem weld Iesu'. Mae'n f'atgoffa i fel gweinidog yn pregethu o Sul i Sul, a phawb arall sy'n sefyll yn y fan hon, taw Iesu, ac Iesu yn unig sydd i'w gyhoeddi a'i draethu o'r lle hwn.

Mae ffydd yn debyg i darian hefyd gan fod angen ei thrin a'i thrafod yn iawn (rhaid i chi ei handlo hi'n iawn!). Bydd rhai'n sôn am eu ffydd yn ddigon hyderus pan fo pethau'n mynd yn iawn, ond pan ddaw'r awr o wir angen, angen dirfawr, bydd eu ffydd, am ba reswm bynnag, yn pallu, a hwythau'n cilio hefyd o'r herwydd.

Un o'r emynau Saesneg rwy'n cofio'i ganu yn yr ysgol yn Nhre-gŵyr oedd hwnnw gan Thomas Lynch, 'My faith, it is an oaken staff, / The trav'ler's well-loved aid'. A'r pennill olaf hwnnw sy'n sôn fel hyn:

My faith, it is an oaken staff,
O let me on it lean!
My faith, it is a trusty sword,
May falsehood find it keen!
Thy Spirit, Lord, to me impart,
O make me what Thou ever art,
Of patient and courageous heart,
As all true saints have been.

Yn ystod y Canoloesoedd, roedd y marchogion yn cario eu harwyddair, eu *coat of arms*, ar eu tarianau. Dylai tarian ein ffydd ni gario ein harwyddair hefyd.

A beth yw hwnnw? Yn ôl Joseph Irons, un o bregethwyr mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, 'Croes a choron' yw *coat of arms* y Cristion, gyda'r geiriau, 'Dim croes, dim coron'! Ie, 'nerth wedi llesgedd', a choron ar ôl croes.

(I'w barhau)

# Credo Nicea – Sesiwn Un: Cread Duw (rhan 2)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

Mae'r siwrnai i Sitio Gaang yn un anodd, gan ei bod yn golygu taith lafurus a hir drwy dirwedd arw. Ac eto, i'r sawl sy'n gwneud y siwrnai, mae'r wobr yn anfesuradwy. Ar 15 Mawrth 2024 cefais y fraint o ymuno ag esgob yr esgobaeth, y Gwir Barchedig Ronelio Fabriquer, a'i swyddogion rhaglen wrth iddynt gysegru capel newydd i'r gymuned Mangyaidd. Roedd llawenydd a chyffro'r gymuned yn amlwg, ac yn dystiolaeth i'w ffydd ddofn a'i gwytnwch.

Mae cysylltiad pobl Mangya â'r tir yn mynd y tu hwnt i gynhaliaeth yn unig; mae hefyd yn ddwfn, yn ysbrydol ac yn ddiwylliannol. Clymwyd eu harferion, eu defodau a'u credoau yn dynn wrth yr amgylchedd naturiol o'u hamgylch. Gwelant eu hunain nid fel perchnogion y tir yn unig, ond fel gofalwyr yr ymddiriedwyd iddynt y cyfrifoldeb o'i warchod a'i gadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cyswllt dwfn hwn â'r tir yn llywio pob agwedd ar eu bywyd, o batrwm eu bywyd bob dydd i'w hymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn.

Fodd bynnag, mae eu bywyd heddychlon bellach dan fygythiad o sawl tu, gan gynnwys militareiddio, mwyngloddio a meddiant graddol o'u tiroedd. Yn drychinebus iawn, collodd aelodau o'r gymuned eu bywydau'n amddiffyn eu hawliau a thiroedd eu hynafiaid. Maent yn dioddef o ganlyniad i'r ffaith fod eu hadnoddau naturiol yn cael eu hecsbloetio, gweithredu twyllodrus yn digwydd wrth iddynt fasnachu eu nwyddau, gwahaniaethu, a threisio'u hawliau dynol sylfaenol.

Er gwaetha'r heriau hyn, saif y Mangyaniaid yn gadarn yn eu hymrwymiad i amddiffyn eu ffordd o fyw a'r amgylchedd sy'n eu cynnal. Maent yn stiwardiaid y tir a gwarcheidwaid ffordd o fyw sydd ynghlwm ym myd natur. Mae eu stori yn atgof dirdynnol o'n cyfrifoldeb ni oll i ofalu am yr amgylchfyd ac amddiffyn hawliau cymunedau cynhenid.

Mae'r Eglwys hefyd yn chwarae rhan greiddiol yn cefnogi'r Mangyaniaid yn eu brwydr dros gyfiawnder a chadwraeth ecolegol. 'Gweinidogaeth presenoldeb' yw ei hymateb, ymateb sy'n deillio o'i ffydd yn Nuw fel Creawdwr y cread cyfan. Ceir enghraifft o hyn yn Esgobaeth Romblon a Mindoro. Mae'n ymgorffori dysgeidiaeth Iesu ar wasanaeth anhunanol a thosturi. Drwy sefyll ochr yn ochr â'r gymuned gynhenid, mae'r Eglwys yn cynnig cryfder, gobaith a dewrder i barhau'r ymdrech dros hawliau ac urddas.

Nid taith go iawn yn unig yw'r daith i Sitio Gaang. Mae'n un ysbrydol a moesol hefyd. Siwrnai ydyw sy'n galw arnom i ystyried ein rôl fel stiwardiaid ar gread Duw ac i weithredu mewn tosturi a chyfiawnder dros yr holl greadigaeth. Wrth i ni geisio byw dysgeidiaeth Crist, boed i ni gael ein hysbrydoli gan ffydd a dygnwch y Mangyaniaid a chydio yn eu dwylo yn eu hymchwil am gyfiawnder, heddwch a chynaliadwyedd yr amgylchedd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

Beth allen ni fod yn ei ddysgu gan y Mangyaniaid a'u cysylltiad â'r tir? Beth mae'n ei olygu i chi fod gennych weinidogaeth o bresenoldeb mewn perthynas â'r amgylchfyd o'ch cwmpas chi, ac yn y mannau lle rydych yn byw ac yn gweithio? Sut mae ein hagwedd at warchod y cread yn newid pan gydnabyddwn Dduw fel Creawdwr?

Sut y gall yr eglwysi Cristnogol uno â'i gilydd i ymateb i'r argyfwng amgylcheddol / newid hinsawdd mae'r byd yn ei wynebu?

Ystyriwch eich eglwys a'ch cymuned leol – beth ydych yn ei wneud fel stiwardiaid ar gread Duw a beth mwy allech chi ei wneud? Beth am gadw nodyn o atebion y grŵp a'u rhannu ar-lein ar @USPGGlobal neu gan ddefnyddio #WeBelieve2025

**Gweddïau**

Dduw Dad, rydym ar fai yn dinistrio dy gread, rydym wedi methu gweithredu i amddiffyn a gwarchod y byd a wnaethost. Maddau i ni am ddinistrio bywyd ein cymdogion, fforestydd, moroedd, mynyddoedd, a'r ddaear gyfan. Bydd yn oleuni i ni ar lwybrau tywyll temtasiwn, hunanoldeb a blys. Ysbrydola ni â'th eiriau a'th weithredoedd, fel y gallwn lewyrchu dy oleuni dros eraill. Atgoffa ni i fod yn stiwardiaid da o'th gread cyfan. Amen.

Arglwydd, rydym yn euog o esgeuluso hawliau pobl gynhenid a ffordd o fyw sydd wedi ei bwriadu i amddiffyn yr amgylchedd a thiroedd eu hynafiaid. Arwain ni, O Dduw, i gynnig iddynt gyfle cyfartal i ennill bywoliaeth gynaliadwy. Ysbrydola ni â'th air i ddangos tosturi a solidariaeth. Amen.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 3 Awst, am 7:30yb a 12:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Aled Lewis Evans, Wrecsam

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 3 Awst, am 2:00yp**
Oedfa'r Eisteddfod dan arweiniad Jen Eynon a chriw Ysgol Morgan Llwyd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Cofio David Enoch (1926–2025)

Ar sawl gwedd, cam ffôl yw nodi cyfraniadau rhai pobl yn fwy nag eraill, gan y bydd cyfraniadau'r rhelyw ohonom yn dibynnu ar ein cyfleoedd a'n doniau, ein hyfforddiant a'n hamseroedd. Mae bywyd yn medru bod yn annheg ac yn anghyfartal, ac mae angen gwerthfawrogi ymdrech ac ymroddiad pawb. Eto, mae cyfraniadau rhai unigolion yn galw am nodyn o werthfawrogiad ar sail y cyfraniad a wnaed ganddynt a hynny yn aml mewn sawl maes. Rhaid felly nodi cyfraniad Dr David Enoch yn y papur hwn. Cyhoeddodd ef ei hun hunangofiant cynhwysfawr – *Enoch's Walk: ninety-five, not out: journey of a psychiatrist* (Y Lolfa, 2021). Hefyd cyhoeddodd Robin Gwyndaf lyfr yn cynnwys gwerthfawrogiad o fywyd a chyfraniad Dr David Enoch yn yr un flwyddyn, *Meddyg y Galon Glwyfus* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2021).

**Gwerinwr**

Ganwyd David Enoch i deulu glofaol ym Mhen-y-groes ac roedd ei dad yn gweithio yn y pwll glo lleol. Cofiai am ei wreiddiau, ac roedd yn falch o'i gefndir a'i dras. Darllenwn yn ei hunangofiant iddo dderbyn addysg gadarnhaol dan arweiniad nifer o athrawon arbennig. Er nad oedd ei gartref yn llawn o lyfrau, roedd yn falch o fenthyg llawer o lyfrau er mwyn digoni ei angen am wybodaeth a hynny ym mhob maes. Un o'r meysydd hynny oedd ei ffydd. Mynychai ef a'i deulu achos Annibynwyr Capel y Sgwâr, a daeth hefyd o dan ddylanwad yr eglwys Bentecostaidd, sef yr Apostolic Temple. Ymdeimlodd â'r alwad i'r weinidogaeth, a chyfeiriai'n gyson at hynny.

Yn yr ysgol uwchradd cymhellwyd ef i beidio â rhuthro i geisio hyfforddiant mewn coleg diwinyddol, gan ddeall y gallai ddatblygu fel pregethwr wrth ddilyn proffesiwn arall. Ymhen y rhawg derbyniodd hyfforddiant fel meddyg gan arbenigo fel seiciatrydd. Ar ôl cyfnod yn y fyddin, datblygodd yn seiciatrydd o statws byd-eang, gan wasanaethu'n bennaf yn Lerpwl. Daeth â syniadau chwyldroadol a newydd i'r proffesiwn, ac roedd ei syniadau ar flaen y gad wrth geisio troi agweddau pobl o feddylfryd y seilam i weld salwch meddwl fel pob salwch arall, a bod triniaethau newydd yn adfer pobl i fywyd normal a llawn.

**Gweddïwr**

Elfen greiddiol i fywyd David Enoch oedd ei ffydd sylfaenol ym mherson Iesu Grist ac iddo'i dderbyn fel ei Waredwr. Fe wnaeth y dylanwadau cynnar yng Nghapel y Sgwâr ac yn yr Apostolic Temple ddwyn ffrwyth, a bu'n bregethwr ac yn genhadwr eneiniedig ac ymroddedig. Bu cyfeillgarwch y Parchg Ray Baker, offeiriad Anglicanaidd yn Eglwys St Mary's Upton, Cilgwri, yn ddylanwad mawr arall arno, heb anghofio pregethu a llyfrau'r Parchg Ddr Martyn Lloyd-Jones. Byddai David Enoch ei hun yn dweud mai Duw oedd sylfaen a sylwedd ei ffurfiant fel cennad ffydd, a bod pob un yn gyfryngau gras a datguddiad o ryfeddod yr efengyl. Roedd wedi priodi Joyce, un o ferched y Parchg W. H. Davies, Eglwys Aberduar, Llanbed, ac roedd ei dad yng nghyfraith yn ddylanwad pwysig arno.

Derbyniodd y cyfrifoldeb o fod yn is-gadeirydd pwyllgor trefnu 'Dweud wrth Gymru' ac ar ôl i'r cadeirydd, sef George Thomas, Arglwydd Tonypandy, orfod ildio'r cyfrifoldeb oherwydd salwch, Dr Enoch oedd prif symbylydd y gwaith. Roedd ef a'i ail wraig, Anne, yn aelodau yn y City Temple, Caerdydd, a'r Eglwys Gadeiriol yn Llandaf, ac roedd yn ddigon hapus i fynychu oedfaon ym mhob traddodiad eglwysig. Roedd holl liwiau ffydd enfys Duw yn ei enaid, ac angor y cyfan oedd ei ddefosiwn cyson gerbron ei Arglwydd.

**Gweledydd**

Ysgrifennodd lyfrau ac erthyglau arwyddocaol a dadlennol. Ystyrir ef yn awdurdod ar gyflyrau anarferol, fel y trafododd yn ei glasur *Uncommon Psychriatric Syndromes*. Ymhlith gweddill ei gyhoeddiadau ceir *Christian Faith and Clinical Psychiatry* ac *I want a Christian Psychiatrist*. Cyflwynodd gyfres ar y teledu: *Let's Face Facts*, ac roedd yn awyddus i ddangos ar bob cyfrwng y berthynas rhwng meddygaeth a Christnogaeth.


Roedd iddo weledigaeth eang oddi mewn i fyd meddygaeth, a bu ar nifer o deithiau darlithio ar draws y byd yn rhannu ei brofiad proffesiynol a'i anogaeth i'w gyd-feddygon. Yn yr un modd, roedd ganddo gynfas helaeth wrth feddwl am genhadaeth yr eglwys yn lleol ac yn genedlaethol, heb anghofio'i ddyhead i hyrwyddo cenhadaeth fyd-eang.


Serch hynny, dyn teulu oedd David, ac roedd yn dathlu bywyd ei fab, Dafydd, a'i deulu yntau. Roedd o fewn blwyddyn i ddathlu ei ben-blwydd yn gant oed, ac os yw'r degawd diwethaf wedi colli rhywfaint o adnabod y gŵr mawr hwn, diolchwn amdano, a diolch i Dduw am y gras a ddatguddiwyd yn ei fywyd.


*Denzil I. John*

Bu David Enoch yn gyfrannwr cyson i *Seren Cymru* dros nifer o flynyddoedd, gan lunio ysgrifau diwinyddol ar faterion moesol. Roedd bob amser yn cynnig arweiniad clir a phendant. Maes o law fe aeth ati i gyhoeddi llawer o'r rhain yn y gyfrol *Y Deg Gorchymyn ac erthyglau eraill*, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair yn 2014. Mae ar gael o'ch siop lyfrau leol am £8.99. Mae ei hunangofiant, *Enoch's Walk*, a gyhoeddwyd gan y Lolfa, ar gael am £11.99, yn ogystal â chyfrol Robin Gwyndaf, *Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl a Chymwynas Fawr Dr David Enoch*; pris £15.

*Aled Davies*



# Cofio David Hugh Francis

Un o Gwm Tawe oedd Hugh Francis, ac un o blant eglwys Calfaria, Clydach. Ac yntau'n unig blentyn Ellis ac Ann Francis, Lone Road, derbyniodd ei addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg Pontardawe, gan fynd wedyn i weithio mewn swyddfa yn Abertawe i gwmni oedd yn masnachu allforion. Yna aeth i'r Gwasanaeth Gwladol fel swyddog ailsefydlu gwasanaethau ar gyfer yr anabl.

Drwy gydol y cyfnod hwn gwnaeth gyfraniad pwysig i'w fam eglwys. Fe'i bedyddiwyd yno yn 1959 gan y Parchg W. Hubert Matthews, ac fe'i profodd ei hunan yn aelod ffyddlon a gweithgar. Penodwyd ef yn ysgrifennydd ariannol yr eglwys yn 1974, ac yna'n ddiacon yn Hydref 1976.

Ond roedd gyrfa Hugh i newid yn llwyr. Ymglywodd â'r alwad i fod yn weinidog yr Efengyl a phenderfynodd adael y swyddfa i fynd i'r pulpud. Yn y fan hon, mae'n rhaid ei ganmol am iddo gymryd y camau priodol i wireddu ei freuddwyd. Cofrestrodd i ddilyn cwrs swyddogol Undeb Bedyddwyr Cymru; gweithiodd yn ddiwyd, gan gwblhau holl ofynion y cwrs yn llwyddiannus.

Ym mis Mai 1992, ac yntau'n agos at ei hanner cant oed, fe'i hordeiniwyd a'i sefydlu'n Weinidog Cynorthwyol eglwys Saesneg Bethania, Clydach – ar y cyd â'r gweinidog, y Parchg Alun Mathias. Dair blynedd yn ddiweddarch ehangodd ei faes pan estynnwyd galwad iddo i fugeilio'r praidd yn eglwys Noddfa, Garn-swllt, yn ogystal â gofalu am eglwys Bethania. Cynhaliwyd dau gyfarfod sefydlu (gan fod gofalaeth newydd wedi ei ffurfio) – y naill ym Methania ar 16 Medi 1995 a'r llall yn Noddfa ar 21 Hydref 1995.

Ymhen pedair blynedd derbyniodd alwad i fugeilio eglwysi Seion-Noddfa, Gorseinon, a Phenuel, Casllwchwr. Ymatebodd yn gadarnhaol i'r gwahoddiad, ac fe'i sefydlwyd yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn y ddwy eglwys ddydd Sadwrn, 4 Medi 1999. Ac yma y bu am y deuddeng mlynedd dilynol, yn fawr ei barch fel ym mhob un o eglwysi ei ofal.

Teimlai Hugh mai anrhydedd o'r mwyaf oedd bod yn weinidog i Grist. Argyhoeddiad tawel, ond sicr a chadarn, oedd ganddo. Medrai ddweud gyda'r apostol: "Canys mi a wn i bwy y credais" (2 Timotheus 1:12). Fe'i nodweddid gan ysbryd gostyngedig, ac fel Ioan Fedyddiwr, ei arwyddair oedd: "Rhaid iddo ef [sef Iesu] gynyddu, ac i minnau leihau." Doedd Hugh ddim yn un i dynnu sylw ato'i hun.

Yn ogystal â bod yn fugail gofalus, câi foddhad wrth fyfyrio yn ei stydi. Enghraifft o hyn yw ei anerchiad fel Llywydd Cymanfa Bedyddwyr Gorllewin Morgannwg, a draddodwyd yng Nghapel Penuel, Casllwchwr, ym mis Mehefin 2003. Mae Hugh yn codi cwestiynau sylfaenol bwysig: Beth yw diben yr Eglwys? Pam credu yn Nuw? Ac y mae ganddo ateb: "Ar ddiwedd y dydd, rydym yn credu mewn Duw oherwydd i'n dychymyg gael ei gyffroi gan y person Iesu." Ac mae'n siŵr iddo lafurio'n drwyadl, a chael llawer o bleser, wrth baratoi'r llyfryn *Hanes Seion*, adeg dathlu canmlwyddiant yr eglwys yn 2003.

Yn hyn i gyd, rhaid cofio nad oedd Hugh yn mwynhau'r iechyd gorau. Bu'n dioddef o *psoriatic arthritis* am flynyddoedd. Rwy'n cofio galw i'w weld ar ôl imi fod yn cynnal oedfa yng Nghalfaria un bore Sul, ac yntau newydd dderbyn llawdriniaeth drom. Roedd mewn gwendid mawr, a minnau'n gweld golwg wael arno. Ond y peth nesaf imi ei glywed oedd ei fod wedi ailafael mewn pregethu. Roedd Hugh yn ddygn, yn ddewr, ac yn benderfynol o ddal ati, er gwaetha'r anawsterau.

Roedd hi'n Sulgwyn pan drawyd ef yn wael am y tro olaf. Y bore hwnnw trodd at ei Feibl a darllen hanes y Pentecost. Erbyn nos bu'r rhaid galw'r meddyg, ac aed ag ef i Ysbyty Treforys, lle bu farw ymhen deuddydd. Y Sulgwyn, wrth gwrs, yw gŵyl yr Ysbryd Glân, y Diddanydd. Cofiwn am addewid Iesu: "A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall i fod gyda chwi am byth."

Ni ellir terfynu'r deyrnged hon heb gyfeirio at Rita, cymar ffyddlon Hugh am yn agos i drigain mlynedd o fywyd priodasol, ac un a fu'n gefn iddo yn ei waith. Gweddïwn ar i ddiddanwch Ysbryd Duw fod yn eiddo iddi yn ei galar, ac yn yr un modd i bawb a gafodd y fraint o adnabod Hugh ac o fod o dan ei weinidogaeth.

*Desmond Davies*

## Gwobrwyo Enillwyr Medalau Gee 2025

Eleni cyflwynir naw o fedalau Gee i'r rhai a enwir isod. Diolchwn iddynt am eu ffyddlondeb a'u gweithgarwch dros achos Iesu Grist, a llongyfarchwn hwy yn wresog iawn.

**David Elfed Davies**, Capel Hermon, Cynwyl Elfed
**Jên Ebenezer**, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid
**Ann Evans**, Eglwys Annibynnol Blaen-y-coed
**David James**, Capel Salem, Treganna, Caerdydd
**Gillian James**, Capel Salem, Treganna, Caerdydd
**Neli Jones**, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid
**Jane Richards**, Capel Glasinfryn, Llanbedr-goch
**Ann Williams**, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid
**Jean Williams**, Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid



Bydd cyfarfodydd i gyflwyno'r medalau'n cael eu trefnu rhwng Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru